Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Caredigrwydd neu Undod
(Blwyddyn 7 i 9)

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	03
Ein cefndir	04-05
Diben yr Adnodd	06-07
Sut i ddefnyddio’r adnodd	08
Crynhoi gweithgareddau	09
Cynlluniau Gwersi	10-15
Adnoddau	16-29
Dolenni Pellach	30

Cydnabyddiaethau Wedi’i ddatblygu mewn partneriaeth â Taith a Dolen Cymru Lesotho, mae'r adnodd hwn wedi’i seilio ar leisiau a phrofiadau bywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a Lesotho.

© Taith & Dolen Cymru Lesotho | Caniateir defnydd addysgol gyda chydnabyddiaeth

Croeso i

Meddwl am y Dyfodol

Adnoddau Caredigrwydd neu Undod

Mae’r adnodd hwn yn helpu disgyblion i ystyried y thema **Caredigrwydd neu Undod** drwy hunaniaeth, perthyn, tegwch a gwerthoedd.

Mae’n meithrin hyder o ran deall sut mae cymunedau yn gwneud penderfyniadau a sut mae’r syniad o berthyn yn cael ei fynegi yng Nghymru a Lesotho.

Ein Cefndir

Dolen Cymru yw cyswllt cyfeillgarwch rhyngwladol mwyaf hirsefydlog Cymru. Ers 1985, mae Dolen Cymru wedi datblygu perthnasoedd rhwng Cymru a Lesotho drwy brosiectau addysg, diwylliant, iaith, iechyd a chymuned.

Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae cysylltiad wrth galon popeth a wnânt.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae Dolen Cymru wedi:

- helpu athrawon yng Nghymru a Lesotho i ddysgu gan ei gilydd
- cefnogi partneriaethau ysgol a chyfnewidiadau Dosbarth
- datblygu adnoddau sy'n dathlu gwerthoedd a hanesion cyffredin
- creu cyfleoedd i bobl ifanc fagu hyder a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd
- cryfhau cysylltiadau cymunedol drwy gyfeillgarwch, parch a thegwch.

Meddwl am y Dyfodol

Pam Cymru ↔ Lesotho?

Er bodCymru a Lesotho yn lleoeddgwahanol iawn, mae llawer o debygrwydd:

- hunaniaeth ddiwylliannol gref
- ieithoedd a thraddodiadau cyfoethog
- ymdeimlad dwfn o gymuned a pherthyn
- hanes o wydnwch ac undod
- wrth eu bodd â cherddoriaeth, adrodd straeon a'r dirwedd

Mae gwaith Dolen Cymru yn dod â'r elfennau cyffredin hyn ynghyd fel y gall plant ddysgu:

"Mae ein hunaniaeth yn cael ei siapio gan y lleoedd yr ydym yn perthyn iddynt, ystraeon yr ydym yn eu rhannu, a'r gwerthoedd sy'n llywio ein ffordd o fyw."

Ein nod mewn addysg

Mae DolenCymru yncefnogi athrawondrwy ddarparu adnoddau ymarferol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n:

✔ **dathlu hunaniaeth, iaith a diwylliant**
✔ **hyrwyddo tegwch, parch a chynhwysiant**
✔ **helpu plant i wneud cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho**
✔ **meithrin hyder a chwilfrydedd**
✔ **annog dinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o wrth-hiliaeth**

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r weledigaeth gyffredin honno.

Diben yr Adnodd

Mae’radnoddhwnyn canolbwyntio ar y thema **Elusen neu Undod (agweddau a’u gweithredoedd)**, ac ar yr un pryd yn ystyried hunaniaeth, perthyn, tegwch a gwerthoedd cymunedol. Fe'i cynlluniwyd drwy lygad gwrth-hiliol ac mae'n cynnwys cymhwysedd digidol ystyrlon drwy gydweithio ag ysgol bartner yn Lesotho.

Mae’r gweithgareddau yn cefnogi meysydd allweddol Cwricwlwm Cymru ar draws y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiadol a’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sy’n helpu disgyblion i ddeall y gorffennol wrth fyfyrio ar bwy ydynt heddiw.

Gwerthoedd Craidd

Cysylltiad Diwylliannol

Mae’radnodd hwnyn gwella dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth eu hunain wrth ddatblygu cysylltiadau ystyrlon rhwng Cymru a Lesotho.
Mae’n hyrwyddo chwilfrydedd, parch a balchder mewn treftadaeth ddiwylliannol.

Cymuned

Mae’rgweithgareddau yn annog tegwch, empathi a gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd. Mae disgyblion yn dysgu am sut mae cymunedau yn y gorffennol a'r presennol yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel, eu cynnwys a'u trin â pharch.

Diben yr Adnodd

Pryd i ddefnyddio Padlet

Mae Padlet a rennir rhwng eich ysgol a'ch dosbarth partner yn Lesotho.

Sganiwch y cod QR isod i gael mynediad at y Padlet a gwneud postiad yn y golofn gywir.

Gall athrawon arddangos postiadau'r ysgol bartner i'r dosbarth fel y gall disgyblion rannu syniadau, cyfnewid ffyrdd o feddwl a dysgu gan ei gilydd.

Gallwch ddefnyddio Padlet i rannu myfyrdodau'ch myfyrwyr.

Padlet

Beth i'w uwchlwytho

Map Daearyddol , Cerdyn Addewid, Geiriau Band Aid

Dylai disgyblion rannu syniadau ynghylch sut gallai bywyd fod yn decach neu'n well yng Nghymru neu Lesotho yn y dyfodol.

Sut i ddefnyddio’r Adnodd hwn

Gellir cyflwyno’r pecyn hwn fel dilyniant llawn o wersi, fel sesiynau unigol, neu ochr yn ochr â thestunau ategol.

Mae pob pwnc yn cynnwys:

- Amcan ddysgu clir
- Canllaw addysgu cam wrth gam
- Syniadau gwahaniaethu a dilyniant
- Adnoddau gweithgareddau disgyblion
- Tasg i fyfyrio neu i gloi

Gall athrawon ddilyn y drefn a awgrymir neu ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â’u helfen gwricwlwm dan sylw a’r amser sydd ar gael.

Mae’r codau QR yn y pecyn hwn yn mynd â chi’n syth at y deunyddiau sydd eu hangen arnoch i gyflwyno pob gwers yn hyderus.

Testun Cydymaith

Darperir testunau ategol i athrawon allu cyfeirio atynt i wella’u gwybodaeth ynghylch pwnc ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w defnyddio'n uniongyrchol gan ddisgyblion.

Crynhoi gweithgareddau

Mae ein rhaglen yn cynnwys

Mae disgyblion yn creu darlun, capsiwn neu neges lafar ynghylch eu cartref, eu hysgol neu eu symbolau diwylliannol ac yn ei rannu â dosbarth partner yn Lesotho. Maent yn edrych ar bethau sy'n debyg a phethau sy'n wahanol, gan fyfyrio ar hunaniaeth, perthyn a llais. Mae'r gweithgaredd yn annog parch cyffredin ac mae'n ystyried disgyblion Cymru a Lesotho fel partneriaid cyfartal sy'n dysgu gyda'i gilydd, nid dysgu am ei gilydd.

Hawliau Plant

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu

Ystyried sut mae hawliau plant yn helpu plant i deimlo'n ddiogel, teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n amddiffyn a chefnogi plant yn deg.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad: Beth sy'n helpu plant I deimlo'n ddiogel teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a theimlo eu bod yn cael eu parchu?

- Blwyddyn 7: Rhestrwch ddau beth sydd ei angen ar blant i wneud iddynt deimlo'n ddiogel neu deimlo eu bod yn cael eu cynnwys
- Blwyddyn 8: Eglurwch sut mae un o'r rhain yn cysylltu â hawl
- Blwyddyn 9: Eglurwch pam mae cael rhywun yn gwrando arnoch yr un mor bwysig â chael eich gwarchod

Gweithgaredd 1

Mae'r athro'n darllen y testunau ategol ynghylch bywydau plant .

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Amlygwch eiriau anghyfarwydd a defnyddiwch gliwiau o ran y cyd-destun i bennu eu hystyr.
- Blwyddyn 8: Amlygwch eiriau neu ymadroddion anghyfarwydd, defnyddiwch gliwiau o ran y cyd-destun i'w deall, a thrafodwch yr hyn y mae'r detholiadau yn ei ddangos am fywydau, hawliau, neu degwch plant.
- Blwyddyn 9: Amlygwch eiriau neu ymadroddion anghyfarwydd, defnyddiwch gliwiau o ran y cyd-destun i'w dehongli, ac ysgrifennwch baragraff byr i egluro sut mae cyd-destun yng Nghymru neu Lesotho yn llywio hawliau plant.

Gweithgaredd 2

Tasg:
Darllenwch y senario a dewiswch yr ymateb sy'n dangos tegwch a pharch tuag at leisiau plant yn y ffordd orau.

Dilyniant:

- B7: Dewiswch A neu B
- B8: Eglurwch sut mae eich dewis yncysylltuâ thegwch
- B9: Eglurwch a yw A neu B yn dangos undod yn hytrach na charedigrwydd.

Adnodd 1 a 2, Tud. 16-17

Hawliau Plant

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae hawliau plant yn helpu plant i deimlo'n ddiogel, teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n amddiffyn a chefnogi plant yn deg.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 3

Tasg

Trefnwch hawliau dan y penawdau hyn: Galluogi cymryd rhan, Amddiffyn a chefnogi perthyn. Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar nodi sut mae hawliau wedi'u strwythuro a'u hategu. Cardiau hawliau: addysg, gofal iechyd, cael eich clywed, diogelwch, gofal teulu

- B7: Trefnwch un hawl ac egluro â pha bennawd mae'n cyd-fynd
- B8: Trefnwch dair hawl a chyfiawnhau un penderfyniad
- B9: Eglurwch sut mae'r un hawl yn cefnogi urddas yng Nghymru a Lesotho.

Adnodd 3 (Blwyddyn 7) tud. 18,Adnodd 4 (Blwyddyn 8-9)tud. 19-20.

Gweithgaredd 4

Tasg:

Lluniwch "fap" nad yw'n un daearyddol o ble y caiff hawliau eu profi (ysgol, cartref, ar-lein, cymuned).

- B7: Nodwch un lle ac un hawl
- B8: Eglurwch sut mae'r hawl yn gweithredu yno
- B9: Cymharwch sut y mae'r hawl honno'n cael ei chefnogi(neu ei herio) yng Nghymru a Lesotho.

Adnodd 7, tud. 23

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad

Sut y gall cymunedau gryfhau hawliau plant heb siarad dros blant ?

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Ysgrifennwch un syniad ynghylch sut y caiff hawliau plant eu cefnogi.
- Blwyddyn 8: Ysgrifennwch un syniad ac eglurwch sut mae'n cefnogi tegwch neu wrando.
- Blwyddyn 9: Ysgrifennwch un syniad ac eglurwch sut mae'n cryfhau cyfranogiad neu lais plant, gan ei gysylltu â'r ymdeimlad o berthyn.

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y ***DDOLEN*** i gyrchu ein padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho fyfyrdod neu neges lafar. Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Hawliau ar waith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae pobl yng Nghymru a Lesotho yn rhoi tegwch ar waith drwy wrando, cefnogi pobl eraill a chydweithio, a chymharu sut mae cymunedau'n gwneud penderfyniadau sy'n parchu hawliau pawb.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Tasg:

Meddyliwch am sefyllfa bywyd go iawn (yn yr ysgol, gartref, neu yn y gymuned) lle'r oedd tegwch o bwys.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Disgrifiwch sefyllfa a oedd yn deg a phwy oedd yn rhan ohoni.
- Blwyddyn 8: Eglurwch pam yr oedd yn deg, gan ei chysylltu â rheol, hawl, neu ddisgwyliad cyffredin.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut mae tegwch yn dibynnu ar systemau (rheolau, cyfreithiau, neu benderfyniadau), ac nid caredigrwydd yn unig, a pham mae hyn yn bwysig i hawliau plant mewn lleoedd gwahanol.

Gweithgaredd 1

Tasg:

Mae myfyrwyr yn darllen detholiadau ac yn trafod teg ac annheg. Yna, mae'r athro'n darllen un sefyllfa fer. Mae disgyblion yn trafod sut mae tegwch yn gweithio yn y sefyllfa honno.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Penderfynwch a yw'r sefyllfa'n deg neu'n annheg a rhowch reswm.
- Blwyddyn 8: Eglurwch yn nwylo pwy mae'r pŵer yn y sefyllfa a pham mae hynny'n bwysig.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut mae tegwch yn dibynnu ar systemau (rheolau, cyfreithiau, sefydliadau), ac nid unigolion yn unig, a pham y gall tegwch edrych yn wahanol ar draws gwledydd hydyn oed pan mae'r un hawliau'n bodoli.

Adnodd 5, tud. 21

Gweithgaredd 2

Tasg

Maedisgyblion yn darllen pob datganiad o'r adnodd datganiadau, yn torri pob un allan ac yn ei osod ar y grid i ddangos a yw'n cynrychioli sefyll gyda phobl neu benderfynu dros bobl, yn seiliedig ar bwy sydd gan lais a phŵer o ran y penderfyniad.

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Rhowch bob datganiad yn y golofn gywir.
- Blwyddyn 8: Dewiswch un datganiad ac eglurwch pam mae'n perthyn i'r golofn honno, gan gyfeirio at lais pwy sy'n cael ei wrando arno neu bwy sy'n gwneud y penderfyniad.
- Blwyddyn 9: Dewiswch un datganiad o 'benderfynu dros bobl' ac eglurwch sut mae hyn yn cyfyngu ar gyfranogiad neu hawliau plant, gan gysylltu eich ateb ag undod yn hytrach na charedigrwydd.

Adnodd 6 a 8, tud. 22 a 24

Hawliau ar waith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae pobl yng Nghymru a Lesotho yn rhoi tegwch ar waith drwy wrando, cefnogi pobl eraill a chydweithio, a chymharu sut mae cymunedau'n gwneud penderfyniadau sy'n parchu hawliau pawb.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 3

Tasg

Lluniwch boster sy'n dangos tegwch mewn ysgolion, yn y gymuned, ar-lein, iechyd, neu helpu eraill. Cofiwch gynnwys: sut mae tegwch yn edrych, llais pwy sy'n cael ei wrando arno, a sut y caiff pobl eu trin. "Mae tegwch yn ymwneud â bod yn garedig, yn ogystal â sut y caiff penderfyniadau eu gwneud."

Dilyniant

- Blwyddyn 7: Rhowch enghraifft o degwch ar waith a labelwch lais pwy sy'n cael ei wrando arno neu bwy sy'n penderfynu.
- Blwyddyn 8: Ychwanegwch at hyn drwy egluro llais pwy sy'n cael ei wrando arno a pham mae hyn yn bwysig.
- Blwyddyn 9: Ymhelaethwch ar hyn drwy egluro sut mae tegwch angen rheolau neu systemau, ac nid bwriad da yn unig.

Gweithgaredd 4

Tasg: Lluniwch gerdyn addo bach gyda'r teitl "Byddaf yn Gwrando Drwy..."

- Blwyddyn 7: Ysgrifennwch un ffordd o wrando
- Blwyddyn 8: ysgrifennwch baragraff sy'n egluro pam mae'r ffordd hon yn cefnogi tegwch
- Blwyddyn 9: eglurwch mewn paragraff sut mae gwrando'n cysylltu â hawliau neu ymdeimlad o berthyn.

Adnoddar Dudalen 28 a 29

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

- Blwyddyn 7: Sut y gall parchu hawliau pobl effeithio ar sut y caiff penderfyniadau eu gwneud?
- Blwyddyn 8: Sut mae parchu hawliau pobl yn cefnogi tegwch ac ymdeimlad o berthyn mewn cymunedau?
- Blwyddyn 9: Sut y gall enghreifftiau o Gymru a Lesotho ein helpu i werthuso sut mae tegwch ac ymdeimlad o berthyn yn edrych heddiw?

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y ***DDOLEN*** i gyrchu ein padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho fyfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Band Aid ac lechyd

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut maeiechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad:

Pryd ymae pobl wedi cydweithio i gefnogi pobl eraill?

•B7: Disgrifiwch enghraifft
•B8: Eglurwch pam yr oedd cydweithio'n bwysig
•B9: Eglurwch sut y mae cydweithio'n wahanol i "achub"

Gweithgaredd 1

Tasg:
Mae'r athro'n darllen camau gweithredu byr yn uchel ac mae'r disgyblion yn penderfynu a yw pob un yn dangos undod (cydweithio â phobl) neu garedigrwydd (penderfynu dros bobl), gan ymateb drwy drafod neu nodiadau ysgrifenedig cryno.

Dilyniant:
- Blwyddyn 7: Nodwch pa gam gweithredu sy'n dangos undod.
- Blwyddyn 8: Eglurwch pam mae cam gweithredu'n dangos undod neu garedigrwydd.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut mae undod yn diogelu urddas, llais, neu barch.

Adnodd 6, tud 22

Gweithgaredd 2

Tasg
Mae disgyblion yn dadansoddi llinellau detholedig o gân a ddefnyddiwyd i gefnogi ymgyrch ac maent yn nodi ym mha rannau mae'r neges yn swnio fel caredigrwydd yn hytrach nag undod, ac yna'n awgrymu sut y gellid ei ail- eirio i ddangos gwrando a phartneriaeth.

Dilyniant:
- Blwyddyn 7: Amlygwch un llinell ac eglurwch beth mae'r gân yn ceisio'i wneud.
- Blwyddyn 8: Nodwch linell sy'n swnio fel caredigrwydd ac eglurwch pam.
- Blwyddyn 9: Ewch ati i ail ysgrifennu un llinell i ddangos undod ac eglurwch sut mae gwrando'n newid y neges.

Adnodd 11 tud. 27

Band Aid ac lechyd

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut maeiechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 4

Tasg

Darllenwch bob cam gweithredu a'i ddadansoddi gan ddefnyddio'r fframwaith penderfynu (llais, pŵer, effaith, cyfrifoldeb, ymdeimlad o berthyn). Penderfynwch a yw'r cam gweithredu yn dangos undod neu garedigrwydd ac eglurwch eich rhesymeg.

Dilyniant:

- Blwyddyn 7: Nodwch ba gamau gweithredu sy'n dangos undod.
- Blwyddyn 8: Eglurwch pa ffactor penderfynu (e.e. llais neu bŵer) a ddylanwadodd ar eich penderfyniad.
- Blwyddyn 9: Gwerthuswch sut mae'r cam gweithredu'n amddiffyn neu'n cyfyngu uniondeb, llais, a thegwch drwy systemau, ac nid bwriad unigol yn unig.

Adnodd 9, tud 25 & Adnodd 10, tud. 26

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:

Sut y gall pobl gefnogi pobl eraill mewn ffyrdd teg a pharchus yn y dyfodol?

- Blwyddyn 7: Un ffordd y gall pobl helpu drwy gydweithio.
- Blwyddyn 8: Eglurwch sut mae gwrando'n gwneud helpu'n decach.
- Blwyddyn 9: Eglurwch sut y dylai helpu yn y dyfodol amddiffyn llais, uniondeb, a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y ***DDOLEN*** i gyrchu ein padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho fyfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Cardiau Senario

Argraffwch y cardiau fflach ac mae'r disgyblion yn dangos A neu B i ddangos pa opsiwn y maent yn meddwl yw'r un mwyaf teg.





Mae gan blentyn syniad ynghylch rhywbeth sy'n effeithio arno.	A: Oedolion yn gwrando ar safbwynt y plentyn cyn penderfynu. B:Oedolion yn penderfynu heb ofyn i'r plentyn.
Mae plentyn yn cael trafferth cyrraedd yr ysgol.	A: Mae'r gymuned yn chwilio am ffyrdd o gefnogi'r plentyn i gyrraedd yr Ysgol. B: Mae disgwyl i'r plentyn ymdopi ar ei ben ei hun.
Mae grŵp eisiau helpu plant mewn cymuned arall.	A:Maent yn gofyn i'r plant pa gymorth sydd ei angen arnynt. B:Maent yn penderfynu beth sydd ei angen ar y plant heb ofyn.
Mae plentyn yn sâl.	A:Mae'r plentynyn cael cymorth meddygol a gofal. B: Nid yw'r plentyn yn cael help oherwydd mae'n anodd ei gyrchu.
Mae plentyn yn helpu gartref.	A: Mae'r plentyn yn helpu gyda thasgau ond mae ganddo amserar gyferyr ysgol aseibiant. B:Gan fod y plent yn gweithio gymaint mae'n methu'r ysgol.

Cardiau Trefnu

(Blwyddyn 7)
Hawliau ar waith

CARDIAU TREFNU

Addysg

CARDIAU TREFNU

Diogelwch

CARDIAU TREFNU

Gofal iechyd

CARDIAU TREFNU

Gofal teulu

CARDIAU TREFNU

Meithrin deimlad o berthyn

CARDIAU TREFNU

Cefnogi cyfranogiad

TREFNU CARDIAU

Amddiffyn

Adnodd 3

Cardiau Trefnu

Hawliau ar waith (Blwyddyn 8 a 9)

CARDIAU TREFNU

Addysg

CARDIAU TREFNU

Diogelwch

CARDIAU TREFNU

Gofal iechyd

CARDIAU TREFNU

Gofal teulu

CARDIAU TREFNU

Meithrin deimlad o berthyn

CARDIAU TREFNU

Cefnogi cyfranogiad

CARDIAU TREFNU

Amddiffyn

Adnodd 4

CARDIAU TREFNU

Gofalu

CARDIAU TREFNU

Amddiffyn

CARDIAU TREFNU

Perthyn

CARDIAU TREFNU

Amddiffyn

Trafodaeth Sefyllfa

Rhannwch eichmeddyliauar y senarios canlynolyn seiliedig ar y wers ar hawliau ar waith.

Senario 1:

Mae grŵp o bobl ifanc yn anhapus â rheol sy'n effeithio arnynt. Maent yn mynegi eu pryderon i oedolion sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r oedolion yn gwrando, ond yn dweud nad oes modd newid y rheol yn syth gan ei bod yn rhan o reolau'r ysgol neu'r gymuned ehangach.

Senario 2:

Mae plentyn angen cymorth ychwanegol i gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau yn yr ysgol neu'r gymuned. Mae oedolion eisiau helpu, ond mae'r cymorth yn dibynnu ar adnoddau sydd ar gael a chymeradwyaeth swyddogol gan sefydliad.

Hawliau ar Waith

UNDOD NEU GAREDIGRWYDD

Mae undod yn parchuhawliaupobl drwywrandoarnynt,eucynnwys, a rhannu penderfyniadau, a pheidio â siarad drostynt.

1 Mae elusen yn penderfynu pa adnodd iechyd sydd ei angen ar gymuned ac mae'n eu hanfon heb ofyn i'r bobl leol.

2 Mae gweithwyr iechyd yn cwrdd ag aelodau'r gymuned i ofyn pa gymorth y byddai wirioneddol yn helpu ac maent yn cynllunio'r ymateb gyda'i gilydd.

3 Mae ymgyrch yn codi arian drwy ddangos pobl ddiymadferthsydd angen eu hachub.

4 Caiff pobl ifanc eu gwahodd i helpu i ddylunio addysg iechyd sy'n adlewyrchu eu profiadau a'u pryderon eu hunain.

5 Caiff penderfyniadau ynghylch cymorth eu gwneud yn gyflym gan oedolion oherwydd eu bod nhw o'r farn mai nhw sy'n gwybod orau.

6 Mae arweinwyr y gymuned a phobl ifanc yn cael amser, arian, a chymorth i arwain prosiectau iechyd eu hunain.

Map hawliau

Adnodd 8

Sefyll gyda phobl	***Penderfynu dros bobl***

Olwyn droi

Torrwch yr olwyn droi allan. Defnyddiwch bin bawd i roi'r olwyn yn sownd i fwrdd. Rhowch y saeth yn sownd i'r bwrdd. Gofynnwch i'r myfyrwyr ei throi a dysgwch y dosbarth am y pynciau yn eu tro.



BAND AID A HIV

UNDOD NEU GAREDIGRWYDD

Cydweithio â phobl yw undod, nid penderfynu drostynt.

1. Mae pobl yn gofyn i gymunedau pa gymorth iechyd sydd ei angen arnynt cyn gweithredu.

2. Mae pobl yn penderfynu pa gymorth mae cymunedau ei angen heb ofyn iddynt.

3. Mae gweithwyr iechyd lleol yn arwain prosiectau, gyda chymorth gan bobl eraill.

4. Mae grwpiau o'r tu allan yn rhedeg prosiectau heb gynnwys gweithwyr lleol.

5. Caiff cerddoriaeth ei defnyddio i godi ymwybyddiaeth wrth wrando ar leisiau'r gymuned.

6. Caiff cerddoriaeth ei defnyddio i godi arian, ond nad oes neb yn trafod â chymunedau.

7. Mae cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth am iechyd.

8. Caiff gwybodaeth ei rhannu heb wirio a yw'n cyd-fynd ag anghenion lleol.

9. Mae pobl yn cefnogi sefydliadau iechyd sy'n bodoli eisoes ac yn gweithio'n lleol.

10. Mae pobl yn creu prosiectau newydd heb ddysgu am yr hyn sydd eisoes yn bodoli.

Do They Know It's Christmas?

It's Christmas time
There's no need to be afraid At
Christmas time
We let in light and we banish shade

And in our world of plenty We can
spread a smile of joy
Throw your arms around the world
At Christmas time

But say a prayer
Pray for the other ones At Christmas
time
It's hard, but when you're having fun

There's a world outside your window
And it's a world of dread and fear Where
the only water flowing
Is the bitter sting of tears

And the Christmas bells that ring there
Are the clanging chimes of doom
Well, tonight thank God it's them

Instead of you

And there won't be snow in Africa this
Christmas time
The greatest gift they'll get this year
is life (oh)
Where nothing ever grows, no rain nor
rivers flow
Do they know it's Christmas time at
all? (oh)

(Here's to you) Raise a glass for
everyone
(Here's to them) Underneath that
burning sun
Do they know it's Christmas time at
all?

Feed the world Feed the world Feed
the world Let them know it's Christmas
time again.

Dolen LESOTHO CYMRU

Beth yw eich addewid?

Rwy'n addo gwrando ar bobl eraill gyda gofal a pharch

Llofnodwch yma:

#UndodDolen
#GwrandoGydaPharch

Dolen LESOTHO CYMRU

Bethyw eich addewid?

Rwy'n addo...

Llofnodwch yma:

#UndodDolen
#GwrandoGydaPharch

DOLENNI PELLACH

Fuse ODG ar Band Aid Sengl

elusen Africa for Norway

Podlediad Iechyd a HIV yng Nghymru

Podlediad Iechyd a HIV yn Lesotho

Fideo Bandaid

Podlediad Hawliau Basatho a Chymru Ar Waith

Podlediad Hawliau Basatho

Podlediad Hawliau Cymru

MANYLION CYSWLLT

Dolen Cymru Lesotho

Dysgwch ragor am y bartneriaeth Cymru-Lesotho:

https://www.dolencymru.org

swyddfa@dolencymru.org

Taith Dysgwch ragor am gyfleoedd dysgu rhyngwladol:

https://www.taith.wales

Dolen LESOTHO CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Taith

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Dysgu ar y Cyd, Gwella ar y Cyd

Mae’r adnoddhwn yn cael ei ddatblygu drwy brofiadau cyffredin. Sganiwch i helpu i lywio’r rhifyn nesaf.

Arolwg adborth